# Rhan 4 – Cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi

## Cynnwys


Rhan 4 – Cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi ........ 1
- Amseru ........ 2
- Fformat ........ 2
- Cynnwys y bwndel argymell ........ 2
- Y ffurflen datganiad ac ymgymeriad ........ 2
- Gwybodaeth nodedig am ymgeiswyr ........ 3
- Ymgeiswyr sydd ag euogfarnau, rhybuddiadau neu orchmynion sifil ........ 3
- Achosion sifil ........ 4
- Achosion teulu ........ 5
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ........ 5
- Prosesau Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ........ 5
- Ystyried argymhellion ........ 6
- Y broses ar ôl penodi ymgeiswyr ........ 6
- Tyngu llw ynadon newydd eu penodi ........ 6

**Mae Rhan 4 o'r Cyfarwyddiadau yn berthnasol i Bwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio yn unig.**

## Amseru

4.1. Gall Pwyllgorau Ymgynghorol gyflwyno argymhellion ar gyfer penodi ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I gefnogi cynllun strategol y gweithlu, dylai gweithgarwch recriwtio gyd-fynd â'r rhagolygon cenedlaethol a gynhyrchwyd gan GLITEF ac a gytunwyd gan y Grŵp Ategol Barnwrol. Rhennir y rhagolygon hyn, sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd, ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ac fe'u defnyddir i lywio cynlluniau recriwtio ar draws y rhanbarthau. Disgwylir i Bwyllgorau Ymgynghorol gyfrannu at gyflawni'r rhagolygon hyn a chydweithio ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i sicrhau bod cynlluniau recriwtio'n ymarferol ac yn weithredol.

4.2. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gyflwyno pob argymhelliad ar gyfer penodi o fewn **deg diwrnod gwaith** i'r penderfyniad i benodi gael ei wneud, neu - os nad yw cliriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael adeg gwneud y penderfyniad - o fewn deg diwrnod gwaith i'w gael. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob argymhelliad unigol ac nid oes yna unrhyw eithriad i hyn.

4.3. Pan fo angen gwybodaeth ychwanegol am ymgeiswyr penodol cyn cyflwyno'r argymhelliad i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol, ni ddylai hyn oedi'r broses o gyflwyno argymhellion ar gyfer ymgeiswyr y mae eu gwybodaeth lawn eisoes ar gael. Yn yr achosion hynny, dylid cyflwyno'r ceisiadau sy'n weddill cyn gynted ag y bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chasglu.

## Fformat

4.4. Rhaid anfon pob argymhelliad i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gyflwyno papurau'n electronig i: magistrateshrteam@judiciary.uk ac ni ddylai unrhyw fwndel gynnwys mwy na 25 enw.

## Cynnwys y bwndel argymell

4.5. Rhaid i'r bwndel argymell gynnwys y canlynol:

- e-bost eglurhaol gan yr Ysgrifennydd neu ddirprwy'r Ysgrifennydd;
- copi wedi'i sganio o ffurflen gais pob ymgeisydd a argymhellir;
- ffurflen manylion yr ymgeisydd wedi'i llenwi, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am unrhyw bryderon ac/neu wrthdaro buddiannau **(Atodiad 4A);**
- copi wedi'i sganio o ffurflen datganiad ac ymgymeriad pob ymgeisydd **(Atodiad 4B)**; a
- chadarnhad o gliriad DBS pob ymgeisydd.

### Y ffurflen datganiad ac ymgymeriad

4.6. Pan fydd euogfarnau/rhybuddiadau neu faterion eraill o ddiddordeb wedi'u

datgelu, rhaid nodi'r wybodaeth hon ar y ffurflen datganiad ac ymgymeriad **(Atodiad 4B).**

4.7. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gadw'r ffurflenni gwreiddiol (naill ai'n ddigidol neu gopi caled) ar gyfer ynadon gweithredol, a dinistrio'r ffurflenni hyn yn ddiogel chwe blynedd ar ôl i'r ynad adael y fainc.

## Gwybodaeth nodedig am ymgeiswyr

4.8. Rhaid i'r bwndel argymell gynnwys unrhyw wybodaeth y dylid ei hamlygu ynghylch yr ymgeiswyr yn yr e-bost eglurhaol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am:

- ymgeiswyr sydd ag euogfarnau, rhybuddiadau neu ddyfarniadau sifil;
- unrhyw ymgeiswyr sy'n cael eu hargymell ar gyfer penodi dan amgylchiadau a allai beri amheuaeth ynghylch eu cymhwysedd — er enghraifft, ymgeiswyr sydd lai na phum mlynedd o'r oedran ymddeol statudol, neu y mae eu cyflogaeth (neu gyflogaeth perthynas agos) fel rheol yn golygu eu bod yn anghymwys i gael eu penodi;
- unrhyw ymgeiswyr y mae'n bosibl y bydd angen trefniadau diogelu ar eu cyfer i reoli'n effeithiol unrhyw risg o wrthdaro buddiannau; ac
- unrhyw wybodaeth arall y mae'r Ysgrifennydd yn ystyried ei bod yn berthnasol i unrhyw ymgeisydd unigol.

4.9. Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol yn barod i ystyried argymhellion ar gyfer penodi yn yr amgylchiadau hyn ond, er mwyn gwneud hynny, bydd disgwyl i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol allu darparu gwybodaeth ynghylch rhesymeg y Pwyllgor Ymgynghorol dros argymell yr ymgeisydd.

4.10. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol nodi mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod pob bwndel argymell yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, ac y bydd methiant i wneud hynny yn debygol achosi oedi wrth ystyried y penodiadau.

## Ymgeiswyr sydd ag euogfarnau, rhybuddiadau neu orchmynion sifil

4.11. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn penodi unrhyw un y byddai'r cyhoedd yn annhebygol o fod â ffydd ynddynt. Ceir manylion pellach am hyn yn Rhan 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn. Felly, rhaid darparu gwybodaeth lawn am unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau neu orchmynion sifil sydd gan ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer penodi.

4.12. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth y dylid ei darparu am ymgeiswyr yn yr amgylchiadau hyn, gan gynnwys lle mae ganddynt briod/partner sifil/partner/aelod agos o'r teulu neu berthynas sydd ag euogfarnau, dyfarniadau llys sifil, neu hysbysiadau cosb o fewn yr un cyfnod a'r un fframwaith datgelu ag sy'n berthnasol i ymgeiswyr.

| Mater | Gwybodaeth ofynnol |
|---|---|
| Trosedd gyrru lle roddwyd cosb benodedig neu ofyniad i fynychu cwrs ymwybyddiaeth gyrru | • Dyddiad y drosedd (o leiaf y flwyddyn)<br>• Natur y drosedd<br>• Cosb (nifer y pwyntiau, a lle bo modd, swm y ddirwy) |
| Euogfarnau a Rhybuddiadau (gan gynnwys troseddau gyrru y mae llys wedi delio â nhw) | • Dyddiad y drosedd (o leiaf y flwyddyn)<br>• Natur y drosedd<br>• (Lle bo'n berthnasol) Enw'r llys lle cafodd yr achos ei wrando<br>• Cosb a roddwyd<br>• Esboniad o'r amgylchiadau pan ddigwyddodd y drosedd, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol<br>• Rhesymeg dros y penderfyniad i argymell ar gyfer penodi. |
| Dyfarniadau Sifil | • Dyddiad y dyfarniad<br>• Manylion y dyfarniad<br>• Esboniad o'r amgylchiadau a arweiniodd at y camau gweithredu sifil, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol<br>• Rhesymeg dros y penderfyniad i argymell ar gyfer penodi. |
| Methdaliad / Ansolfedd | • Dyddiad rhyddhau'r ymgeisydd o fethdaliad (o fewn y pum mlynedd ddiwethaf)<br>• A oes Trefniant Gwirfoddol Unigol mewn lle?<br>• A yw'n fethdaliad personol neu'n gysylltiedig â chwmni?<br>• A yw'r ymgeisydd wedi dechrau busnes newydd sy'n debyg i'r un a aeth yn ansolfedd?<br>• Gwybodaeth am unrhyw gredydwyr sydd heb eu talu.<br>• A oes gorchymyn rhyddhad dyledion neu orchymyn rhyddhad dyledion interim wedi'i wneud yn eu herbyn, neu a ydynt wedi cytuno ar drefniant gyda'u credydwyr? |

## Achosion sifil

4.13. Pan fydd ymgeisydd wedi cael ysgariad ac mae ganddynt blant o dan 18 oed, rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol ganfod a oes unrhyw orchmynion cynhaliaeth mewn grym, a yw'r taliadau'n gyfredol, ac ym mha lys y gellir gorfodi'r gorchmynion. Os yw'r gorchmynion i'w gorfodi yn yr un Ardal Gyfiawnder Lleol y gallai'r ymgeisydd gael ei benodi iddi, rhaid i'r Pwyllgor gadarnhau y bydd yn trefnu i drosglwyddo'r gorchmynion hynny os bydd angen eu gorfodi.

### Achosion teulu

4.14. Gofynnir i ymgeiswyr i'r llys teulu ddatgelu a fuont erioed yn bartïon mewn unrhyw achos llys teulu, ac eithrio ceisiadau i fabwysiadu. Gwneir hyn er mwyn galluogi Pwyllgorau Ymgynghorol i ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol ddarparu'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag unrhyw ddatgeliadau o'r fath:

- Dyddiad yr achos(ion);
- Manylion yr achos(ion)/gorchmynion y gall eu henw ymddangos ynddynt; a
- Cadarnhad bod y mater wedi'i drafod yn ystod y cyfweliad a'r rhesymeg dros y penderfyniad i'w hargymell ar gyfer penodi.

### Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

4.15. Dim ond pan fyddant wedi cael cliriad DBS ar gyfer pob ymgeisydd y dylai Pwyllgorau Ymgynghorol gyflwyno eu hargymhellion i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

4.16. Ni all yr Uwch Farnwr Llywyddol ystyried unrhyw argymhelliad ar gyfer penodi hyd nes y bydd cliriad DBS wedi'i dderbyn.

4.17. Gall cyd-lofnodwyr ddefnyddio'r adnodd olrhain ar-lein i wirio cynnydd gwiriad DBS: www.secure.crbonline.gov.uk/enquiry/enquirySearch.do

4.18. Pan fydd oedi sylweddol wrth aros am wiriadau DBS, dylai Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol gyflwyno argymhellion yr ymgeiswyr hynny y mae eu cliriad DBS eisoes wedi dod i law, a chyflwyno'r gweddill ar ddyddiad diweddarach.

4.19. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol roi gwybod i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol pryd y maent yn bwriadu cyflwyno'r argymhellion sy'n weddill er mwyn i Adnoddau Dynol Y Swyddfa Farnwrol allu gwneud defnydd effeithiol o'i adnoddau.

## Prosesau Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol

4.20. Ar ôl i'r argymhellion gyrraedd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol, bydd aelod o'r tîm yn cydnabod eu derbyn.

4.21. Nod Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yw prosesu'r argymhelliad, sicrhau cymeradwyaeth yr Uwch Farnwr Llywyddol, a hysbysu'r Pwyllgor Ymgynghorol o'r penodiadau newydd a gymeradwywyd o fewn **30 diwrnod gwaith** o ddyddiad derbyn argymhelliad. Mae hyn yn amodol ar fodolaeth a chywirdeb yr holl ddogfennau, bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu am unrhyw bryderon neu wrthdaro buddiannau posibl, ac ar argaeledd yr Uwch Farnwr Llywyddol.

4.22. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn hysbysu Pwyllgorau Ymgynghorol am gynnydd yr argymhellion, a gallant gysylltu â'r tîm unrhyw bryd i ofyn am ddiweddariad.

## Ystyried argymhellion

4.23. Yr Uwch Farnwr Llywyddol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid penodi ymgeisydd ai peidio.

4.24. Os bydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn gwrthod argymhelliad ymgeisydd penodol, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn anfon llythyr ar Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn egluro'r rheswm neu'r rhesymau dros benderfyniad yr Uwch Farnwr Llywyddol i beidio â phenodi'r ymgeisydd. Caiff yr Ysgrifennydd wedyn rannu'r llythyr hwnnw gyda'r ymgeisydd a wrthodwyd.

## Y broses ar ôl penodi ymgeiswyr

4.25. Pan fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol wedi cymeradwyo penodi'r ymgeiswyr a argymhellwyd, cânt eu penodi i Gomisiwn Heddwch Cymru a Lloegr a'u neilltuo i Ardal Gyfiawnder Lleol benodol.

4.26. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn anfon llythyr at yr ymgeiswyr llwyddiannus (gyda chopi i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol) a thystysgrif penodi.

4.27. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol hefyd yn rhoi gwybod i Ysgrifenyddion y Pwyllgorau Ymgynghorol am unrhyw fesurau y mae'n ofynnol eu rhoi ar waith i ddiogelu yn erbyn unrhyw ymddangosiad, neu unrhyw risg wirioneddol, o wrthdaro buddiannau neu gyfaddawd o ran annibyniaeth farnwrol.

## Tyngu llw ynadon newydd eu penodi

4.28. Rhaid i Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol drefnu i ynadon newydd eu penodi dyngu'r llw.

4.29. Argymhellir yn gryf nad yw Pwyllgorau Ymgynghorol yn trefnu dyddiad ar gyfer tyngu llw nes y byddant wedi cael hysbysiad gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol fod yr argymhellion wedi'u cymeradwyo gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.